



Ymunwch â'n Tîm fel Swyddog Gweinyddiaeth

Lleoliad	Oriau	Cyflog	Dyddiad Cau
Llanelwedd, Llanfair-ym-Muallt, Powys gydag opsiwn gweithio hyblyg / hybrid	Llawn-amser 36 awr a 15 munud yr wythnos	Tua £28,250 y flwyddyn, a buddion a phensiwn hael	Dydd Gwener 29 Tachwedd, 2024 Dyddiad y Cyfweiliad Dydd Mercher 11 Rhagfyr, 2024

Y Cyfle

Rydyn ni'n chwilio am unigolyn profiadol, deinamig sy'n llawn ysgogiad ar gyfer swydd y Swyddog Gweinyddiaeth. Mae hon yn rôl bwysig wrth gyflawni'r seilwaith ar gyfer ein tri digwyddiad gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru, Y Ffair Aeaf a'r Wyl Wanwyn.

Mwy Amdanom Ni

Er i Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru gael ei sefydlu 120 mlynedd yn ôl, mae'n Gymdeithas fodern ac mae ganddi le unigryw yn nhirlun gwledig a diwylliannol Cymru. Fel elusen gofrestredig, ein nod craidd yw hyrwyddo amaethyddiaeth gynaliadwy, garddwriaeth, coedwigaeth, cadwraeth a'r amgylchedd yng Nghymru. Rydym ni'n cyflawni'r amcanion hyn trwy lwyfannu tri digwyddiad mawr bob blwyddyn, ochr yn ochr â nifer o wobrau, bwrsariaethau ac ysgoloriaethau.

Yn ogystal â'n digwyddiadau ni ein hunain, rydym ni'n croesawu nifer o ddigwyddiadau trydydd parti i Faes y Sioe, sy'n safle 150-erw. Mae hyn yn creu incwm allweddol i danategu ein gwaith elusennol.

Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd gofyn i'r Gymdeithas, fel pob sefydliad arall, esblygu er mwyn iddi barhau i fod yn berthnasol. Mae gennym nifer o brosiectau cyffrous ar y gweill ac ysfa i gofleidio newid ac i dyfu llwyddiant ein digwyddiadau.

Trosolwg

Mae'r rôl yn un amrywiol ac mae'n seiliedig ar ddigwyddiadau. Mae'n allweddol i seilwaith ein digwyddiadau; ymgymryd â gwaith contract ar gyfer gwasanaethau digwyddiadau gyda Rheolwyr ac deiliaid Swyddi Gwirfoddol Uwch; gweinyddu ar gyfer tîm sylweddol a phwysig o wirfoddolwyr a gwaith allweddol ar gyfer Pwyllgorau'r Sioeau er enghraifft Sioe'r Haf, Rheoli Traffig ac Iechyd a Diogelwch. Hefyd, ar brydiau, mynd i gyfarfodydd Pwyllgorau sefydlog allweddol eraill er enghraifft y Ffair Aeaf, Yr Wyl, Da Byw a Cheffylau.

Prif Weithgareddau

- cefnogi gwaith caffael ar gyfer contractau digwyddiadau (gwasanaethau) a'u gweithrediad e.e. rheoli traffig, diogelwch, rheoli gwastraff, glanhau a chynnal a chadw, annerch y cyhoedd a radios ayb.

- cydlynu stiwardiaid gwirfoddol ar gyfer y tri digwyddiad (tua 800 ar gyfer y Sioe), gan gynnwys carafanau stiwardiaid
- cydlynu cyfarfodydd Pwyllgorau'r Sioe, gan gynnwys Sioe'r Haf, Rheoli Traffig, Iechyd a Diogelwch ac ysgrifennu cofnodion a chymau gweithredu ar eu cyfer
- cydlynu contractau gyda pherchnogion tir ac eraill megis British Rail, National Grid Group, Llywodraeth Cymru a ffermwyr lleol.
- cydlynu trefniadau trwyddedu yn unol â'r uchod
- cynhyrchu dogfennau amrywiol i gefnogi seilwaith y digwyddiadau
- cydlynu trefniadau tocynnau
- cymorth cyffredinol o bryd i'w gilydd mewn ardaloedd eraill, er enghraifft yn y dderbynfa

Mae angen i chi fod yn angerddol ac yn ymroddgar i lwyddiant hirdymor y Gymdeithas a rhaid i chi allu gweithio dan bwysau, trafod nifer o flaenoriaethau a chwrdd â dyddiadau terfyn.

Rydyn ni'n dîm bach a bydd tasgau sydd y tu allan i'r cyfrifoldebau allweddol uchod. Felly, bydd gofyn i chi fod yn hyblyg ac yn barod i addasu i'r gofynion.

Mae'r swydd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pennaeth Gweinyddiaeth a bydd deiliad y swydd yn gweithio ar rai agweddau ar waith i'r Prif Weithredwr, y Pennaeth Gweithrediadau a'r Rheolwr Ystadau.

Mae'r priodoleddau canlynol yn rhinweddau personol pwysig ar gyfer y rôl. Gwerthfawrogi efallai na fydd gan un ymgeisydd bob un ohonynt. Fodd bynnag, defnyddiwch eich cais i ddangos sut y gall eich profiad, eich sgiliau a'ch gwybodaeth fodloni gofynion cyflawni'r swydd amrywiol hon.

Profiad, Sgiliau a Gwybodaeth

- gwaith gweinyddol ar lefel ardderchog
- sgiliau cyfathrebu rhagorol, ar lafar ac yn ysgrifenedig
- sgiliau rhyngpersonol ardderchog
- ardderchog gyda meddalwedd TG y swyddfa a defnyddio taenlenni a chronfeydd data
- gallu ardderchog i gydlynu gwybodaeth a'i rhaeadru
- hanes profedig o symleiddio prosesau a gwella effeithlonrwydd
- y gallu i gynorthwyo gyda chyfeiriad y gwaith a chynorthwyo rheolwyr llinell/uwch-swyddogion i ddatblygu gweithdrefnau gweithredu
- y gallu i ymgynghori am faterion sy'n effeithio ar bolisi a phroblemau gweinyddol eraill
- y gallu i ddatrys problemau ac addasu
- cynnig lefel dda o wasanaeth i gwsmeriaid ac aml-dasgio erbyn dyddiadau terfyn
- y gallu i weithio ar eich menter eich hun ac fel aelod o dîm
- sylw agos i fanylder
- byddai'r gallu i drefnu gwaith contract ar gyfer gwasanaethau digwyddiadau yn ddymunol ond nid yw'n hanfodol
- byddai ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyffredinol o gydymffurfio â materion GDPR yn ddymunol ond nid ydynt yn hanfodol
- y gallu i gydlynu gwaith rhwng nifer fawr o randdeiliaid
- y gallu i ddeall cyllidebau a chreu dadansoddiad ariannol sylfaenol
- ffordd gyfeillgar, hyderus a hawdd mynd atoch
- mae'r gallu i sgwrsio ac i ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ddymunol ond nid yw'n hanfodol
- dealltwriaeth o ffermio neu fywyd yng nghefn gwlad, neu brofiad ohonynt

Gwybodaeth hanfodol

- Tystiolaeth o'r hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig

Cymdeithas
Amaethyddol
Frenhinol
Cymru

Royal
Welsh
Agricultural
Society



Er mwyn ymgeisio am y swydd, anfonwch CV a llythyr eglurhaol at Ms Caron W Evans, Pennaeth Gweinyddiaeth, naill ai trwy neges e-bost at caron@rwas.co.uk neu trwy lythyr gyda'r geiriau 'Preifat a Chyfrinachol' arno at Ms Caron W Evans, Pennaeth Gweinyddiaeth, CAFC Cyf, Maes y Sioe, Llanelwedd, Llanfair-ym-Muallt, Powys LD2 3SY.

Os hoffech drafod y swydd yn anffurfiol cyn cyflwyno cais, cysylltwch â'r uchod.

Dyddiad cau: Dydd Gwener 29 Tachwedd, 2024

Cyfweliadau: Dydd Mercher 11 Rhagfyr, 2024

AMODAU A THELERAU CYFLOGAETH CYFFREDINOL

Contract: Parhaol (yn amodol ar gyfnod prawf o 6 mis)

Ystod cyflog: £28,250 y flwyddyn

Oriau: Llawn amser – Dydd Llun i Ddydd Gwener – Oriau Busnes Craidd:
8.45am i 5pm. Dydd Llun i Ddydd Gwener. Cinio 30 munud i 2 awr.
Opsynau hyblyg ar gael rhwng 8am a 6.30pm.

Oriau ychwanegol: Yn ystod oriau brig, bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithio oriau ychwanegol i baratoi at ddigwyddiadau'r Gymdeithas, a bydd modd cael rhai oriau cyfyngedig yn ôl yn lle'r oriau gwaith hyn gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw. Bydd modd gweithio ar sail hybrid fel y cytunwyd gyda'r rheolwr llinell.

Gwyliau: 24 diwrnod y flwyddyn yn ogystal â gwyliau cyhoeddus arferol. Mae'r busnes yn cau dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Buddion: Yn unol â Deddf Pensiwn 2011. Cynigir gofal iechyd, yswiriant bywyd a darpariaeth salwch tymor hirach (mae yna amodau penodol) ar ôl cyfnod prawf llwyddiannus. Mae'r cyflogwr yn talu pensiwn rhanddeiliaid o 6% o'r cyflog gros, ac mae'r gweithiwr yn talu isafswm o 4%. Mae cyngor ar gael hefyd gan frocer buddion.